IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

NOSC 2026 Rhif 194

PRIFFYRDD

Gorchymyn Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (Yr A494) (Disodli Pont Dros Afon Dyfrdwy) 2026

Gwnaed ***4 Tachwedd 2026***

Yn dod i rym ***19 Tachwedd 2026***

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 10 a 106(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980**(1)** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Cychwyn, Enwi a Dehongli

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Tachwedd 2026 a'i enw yw "Gorchymyn Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (yr A494) (Disodli Pont Dros Afon Dyfrdwy) 2026".

2. Yn y Gorchymyn hwn—

Gwneir pob mesuriad pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

(1) 1980 (p. 66). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

NWSI 2026 No. 194

HIGHWAYS

The Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (A494) (River Dee Bridge Replacement) Order 2026

Made ***4 November 2026***

Coming into force ***19 November 2026***

The Welsh Ministers, in exercise of powers conferred by sections 10 and 106(1) of the Highways Act 1980**(1)** make this Order.

Commencement, Title and Interpretation

1. This Order comes into force on 19 November 2026 and its title is "The Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (A494) (River Dee Bridge Replacement) Order 2026".

2. In this Order—

All measurements of distance are measured along the route of the relevant highway;

(1) 1980 (c. 66). By virtue of S.I.1999/672 article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales

(i) ystyr "y plan a adneuwyd" yw'r plan sy'n dwyn y rhif HA10/2 WG22 ac sydd wedi ei farcio "Gorchymyn Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (yr A494) (Disodli Pont Dros Afon Dyfrdwy) 2026", wedi ei lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru ac wedi ei adneuo (cyf qA2280938) yn Llywodraeth Cymru, yr Uned Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion, Parc Cathays, Caerdydd;

(ii) ystyr "y gefnffordd newydd" yw'r briffordd sydd i'w hadeiladu ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;

(iii) ystyr "y gefnffordd" yw Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (yr A494).

Priffordd sydd i ddod yn gefnffordd

3. Bydd y briffordd newydd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei hadeiladu ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn dod yn gefnffordd, o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

4. Dangosir llinell ganol y darn o'r gefnffordd newydd â llinell ddu drom ar y plan a adneuwyd.

5. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu hawdurdodi i adeiladu'r bont a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn dros ddyfroedd mordwyol Afon Dyfrdwy fel rhan o'r gefnffordd newydd.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiad 4 Tachwedd 2026

Nicci Hunter
Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd
Llywodraeth Cymru

(i) "the deposited plan" means the plan numbered HA10/2 WG22 and marked "The Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (A494) (River Dee Bridge Replacement) Order 2026", signed on behalf of the Welsh Ministers and deposited (ref qA2280938) at the Welsh Government, Information and Records Management Unit, Cathays Park, Cardiff;

(ii) "the new trunk road" means the highway to be constructed along the route described in Schedule 1 to this Order;

(iii) "the trunk road" means The Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (A494).

Highway to become trunk road

3. The new highway which the Welsh Ministers propose to construct along the route described in Schedule 1 to this Order shall become trunk road, as from the date when this Order comes into force.

4. The centre line of the length of the new trunk road is indicated by a heavy black line on the deposited plan.

5. The Welsh Ministers are authorised to construct over the navigable waters of the River Dee the bridge specified in Schedule 2 to this Order as part of the new trunk road.

Signed on behalf of the Welsh Ministers

Date 4 November 2026

Nicci Hunter
Head of Governance and Assurance
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

LLWYBR Y GEFNFFORDD NEWYDD

Mae llwybr y gefnffordd newydd yn croesi Afon Dyfrdwy, rhwng Cyfnewidfa Queensferry a Garden City, yn Sir y Fflint fel a ganlyn: -

1. Darn o'r gefnffordd, i gynnwys llwybr beiciau dwyffordd (â hawl tramwy ar droed) a llwybr mynediad cynnal a chadw sy'n hanfodol i gefnffordd yr A494 yn rhedeg ar hyd ei ochr dde-ddwyreiniol, sy'n dechrau ar bwynt tua 39 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y gefnffordd bresennol a thua 20 o fetrau i'r de-orllewin o lan dde-orllewinol y dyfroedd mordwyol a elwir yn Afon Dyfrdwy, yng Nghymuned Queensferry (a farciwyd A ar y plan a adneuwyd) ac sy'n ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain am bellter o 166 o fetrau hyd at bwynt tua 30 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y gefnffordd bresennol a thua 23 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o lan ogledd-ddwyreiniol Afon Dyfrdwy, yng Nghymuned Sealand (a farciwyd B ar y plan a adneuwyd).

ATODLEN 2

PLANIAU A MANYLEBAU'R BONT NEWYDD DROS AFON DYFRDWY

SCHEDULES

SCHEDULE 1

ROUTE OF THE NEW TRUNK ROAD

The route of the new trunk road crosses the River Dee, between Queensferry Interchange and Garden City, in the County of Flintshire as follows: -

1. A length of the trunk road, to include a two way cycle track (with a right of way on foot) and maintenance access route integral to the A494 trunk road running along its south eastern side, commencing at a point approximately 39 metres south east of the centre point of the existing trunk road and approximately 20 metres south west of the south western bank of the navigable waterway known as the River Dee, in the Community of Queensferry (marked A on the deposited plan) and extending north eastwards for a distance of 166 metres to a point approximately 30 metres south east of the centre point of the existing trunk road and approximately 23 metres north east of the north eastern river bank of the River Dee, in the Community of Sealand (marked B on the deposited plan).

SCHEDULE 2

PLANS AND SPECIFICATIONS OF THE NEW BRIDGE OVER THE RIVER DEE